



Cymru
National Day Nurseries Association

Factsheet



System Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Ngymru

Cwricwlwm i Gymru

System Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yng Ngymru

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (cyfeirir o hyn ymlaen fel y 'Ddeddf') a Y Côt Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 (cyfeirir ato fel y 'Côt') yw'r system statudol ar gyfer cyfarfod ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) plant a phobl ifanc. Mae'n gosod safbwynt, dymuniadau a theimladau'r dysgwyr yn nghanol y broses gynllunio sydd ei angen i'w galluogi i ddysgu yn effeithiol a chyrraedd eu llawn botensial. Os oes ganddoch blentyn gyda anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn eich gofal, dylech fod yn ymwybodol o'r côd ymarfer a'ch cyfrifoldebau o dan y côd yma.

Bydd y daflen ffeithiau hon yn archwilo y system ADY a'ch cyfrifoldeb wrth gefnogi plant gyda ADY.

Beth yw'r system ADY?

Y **system anghenion dysgu ychwanegol (ADY)** newydd yw'r system newydd i gefnogi plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed yng Nghymru gyda ADY. Mae'r system ADY yn *disodli'r* system anghenion addysg arbennig (AAA) a'r system oedd yn cefnogi pobl ifanc gydag anghenion dysgu a/neu anabledau (ADA).

Drwy'r system hon, nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod pob dysgwr ag ADY yn cael ei gefnogi i oresgyn rhwystrau i ddysgu a'u bod yn gallu cyflawni eu potensial llawn, drwy greu:

- Un fframwaith deddfwriaethol i gefnogi pob plentyn a pherson ifanc 0-25 oed ag ADY
- Proses integredig, gydweithredol o asesu, cynllunio a monitro'r cymorth a ddarperir i ddysgwyr ADY sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol
- System deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chynghor, ac ar gyfer datrys pryderon ac apeliadau.

Mae'r Ddeddf ADY yn ddisodli'r term 'anghenion addysg arbennig' (AAA) ac 'anabledau dysgu a/neu anabledau (ADA)' gyda'r term **ADY**.

Bydd pob plentyn ag ADY, beth bynnag fo difrifoldeb neu gymhlethdod eu hanabledd dysgu neu anabledd, â hawl i gynllun cefnogi statudol o'r enw **cynllun datblygu unigol (CDU)**. Bydd plant a phobl ifanc ag ADY yn cael cymorth a elwir yn **darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY)** a fydd yn cael ei nodi yn eu CDU.

Mae cydnabyddiaeth gynyddol i'r Gymraeg hefyd o fewn y Ddeddf a'r Côt. Dylid ystyried y plentyn neu berson ifanc unigol ac a oes angen ei ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg. Os felly, rhaid cofnodi hyn yn eu CDU a rhaid cymryd 'pob cam rhesymol' i sicrhau'r ddarpariaeth yn Gymraeg.

Deall beth mae ADY yn ei olygu

Mae llawer o blant yn debygol o brofi rhyw fath o drafferth neu oediad yn eu dysgu a'u datblygiad ond efallai nad yw'n cael ei ystyried bod ganddynt ADY gan bod eu datblygiad yn gallu cael ei gefnogi drwy ymarfer cynhwysol sy'n eu cydnabod ac yn addasu ar eu cyfer.

Yn ôl [Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018](#)

(1) Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (pa un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol ai peidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

(2) Mae gan blentyn sydd o'r oedran ysgol gorfodol neu berson sy'n hŷn na'r oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabledd—

- i. os yw'n cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran, neu*
- ii. os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach*

(3) Mae gan blentyn sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol anhawster dysgu neu anabledd os yw'r plentyn yn debygol o fod o fewn is-adran (2) pan fydd o'r oedran ysgol gorfodol, neu y byddai'n debygol o fod felly pe na bai darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei gwneud.

(4) Os yw'r iaith (neu'r ffurf ar iaith) y mae neu y bydd person yn cael ei addysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu ffurf ar iaith) sy'n cael neu sydd wedi cael ei defnyddio gartref, nid yw hynny'n unig yn golygu bod gan y person anhawster dysgu neu anabledd.

Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am wneud penderfyniad ynghylch a oes gan blentyn sy'n mynychu lleoliad nas cynhelir ADY. Os yw lleoliad nas cynhelir yn credu y gallai fod gan blentyn ADY, dylai'r lleoliad hwnnw drafod ei bryderon i ddechrau gyda rhieni/gofalwyr. Yn dilyn trafodaeth gyda rhieni/gofalwyr, gall naill ai'r lleoliad neu'r rhiant ddod â'r pryderon i sylw'r awdurdod lleol. Yn

absenoldeb cytundeb rhieni i gysylltu â'r awdurdod lleol, dylai'r lleoliad ystyried lles gorau'r plentyn ac ystyried cysylltu beth bynnag. Pan fo lleoliad yn cael ei ariannu ar gyfer addysg feithrin, gallai'r awdurdod lleol ofyn i'r lleoliad ei gefnogi gyda'i wybodaeth a'i ddealltwriaeth o'r plentyn i helpu'r awdurdod lleol i benderfynu a oes gan y plentyn ADY.

Cefnogaeth gan y Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar (CADY Blynyddoedd Cynnar)

Mae gan y CADY Blynyddoedd Cynnar gyfrifoldeb i gydlynu gwasanaethau anghenion dysgu ychwanegol ar draws yr Awdurdod Lleol i blant 0-5 oed, gan gynnwys **darparu cefnogaeth, arweiniad a dysgu proffesiynol** i leoliadau addysg feithrin nas cynhelir, lleoliadau gofal plant a rhieni/gofalwyr plant gydag anghenion dysgu ychwanegol rhwng 0-5 oed.

Y CADY Blynyddoedd Cynnar yw'r prif gyswllt yn yr awdurdod lleol ar gyfer ADY yn y Blynyddoedd Cynnar. Mae'n ofynnol i pob awdurdod lleol yng Ngymru o dan y Ddeddf i gael CADY Blynyddoedd Cynnar. Bydd rhai awdurdodau lleol yn penderfynu cael nifer o unigolion yn y rôl neu gyflogi tîm i gefnogi CADY BC. Dylech allu dod o hyd i fanylion cyswllt ar wefan eich awdurdod lleol.

Bydd y CADY Blynyddoedd Cynnar /awdurdod lleol yn rhannu'r broses o adnabod a chefnogi ADY gyda chi. Efallai y gofynnir i chi ddarparu rhywfaint o dystiolaeth i helpu gyda'r penderfyniad a oes gan y plentyn ADY. Dylai unrhyw dystiolaeth y gallwch ei chynnig helpu i ddod i benderfyniad gwybodus; chi a'ch staff fyddai'n gweld y plentyn yng nghyd-destun ei weithgareddau dyddiol ac yn gwybod am yr heriau ac anghenion yr unigolyn. Dyma lle mae eich arsylwadau parhaus yn hynod werthfawr i'r broses. Ar gyfer lleoliadau nad ydynt yn cael eu hariannu ar gyfer addysg feithrin efallai y gofynnir i chi hefyd ddarparu tystiolaeth i gefnogi gwneud penderfyniadau.

Os yw'r CADY Blynyddoedd Cynnar yn cytuno bod gan blentyn ADY ac y byddai'n elwa o ddarpariaeth (cefnogaeth) ychwanegol bydd yn dechrau ar y broses o ddatblygu Cynllun Datblygu Unigol.

Rôl y cynllun datblygu unigol (CDU)

Mae gan bob plentyn ag ADY, beth bynnag fo difrifoldeb neu gymhlethdod ei anghenion dysgu, hawl i gynllun cymorth statudol a elwir yn gynllun datblygu unigol (CDU). Bydd gan unrhyw ddysgwr rhwng 0 a 25 oed ag ADY fel y'i diffinnir yn gynharach, CDU.

Mae'n ofynnol i CDU ddefnyddio fformat safonol er y gellir addasu arddull y ffurflen i weddu i ddewisiadau lleol neu rai'r plentyn neu'r person ifanc. Mae CDU yn disgrifio ADY y dysgwr ac yn nodi pa gymorth fydd yn cael ei roi i'w helpu i ddysgu. Bwriedir i'r CDU fod yn ddogfen hyblyg a fydd yn amrywio o ran hyd a chymhlethdod, yn dibynnu ar anghenion unigol dysgwyr a'r ffordd y mae anghenion dysgwr yn datblygu ac yn newid dros amser.

Ar gyfer plant o dan oedran ysgol gorfodol mae'r Côt yn gosod gofynion ar awdurdodau lleol o ran paratoi, cynnwys, ffurf, adolygu a diwygio CDUau a rhoi'r gorau i gynnal CDUau (lle nad oes eu hangen mwyach). Mae'n rhaid i unrhyw gymorth sydd wedi'i ysgrifennu mewn CDU gael ei ddarparu yn ôl y gyfraith. Mae gan ddarparwyr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir rôl mewn helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol.

Darpariaeth Addysg Ychwanegol (DAY)

Bydd plant ag ADY yn cael cymorth a elwir yn ddarpariaeth dysgu ychwanegol (DDdY) a fydd yn cael ei nodi yn eu CDU. Mae DDdY yn golygu addysg neu ddarpariaeth sy'n ychwanegol neu'n wahanol i'r hyn a ddarperir ar gyfer eraill o'r un oedran.

Bydd hyn yn wahanol i strategaethau a gwahaniaethu sydd ar gael yn gyffredinol i bob plentyn.

Mae DDdY yn perthyn yn bennaf i dri chategori:

1. Cefnogaeth yn digwydd o fewn grŵp bach neu'n unigol yn ystod chwarae o fewn yr amgylchedd
2. Lle mae'n ychwanegol at, neu'n wahanol i'r hyn sydd ar gael i ddysgwyr o'r un oedran
3. Dysgu a ddarperir y tu allan i'r lleoliad neu gan weithiwr proffesiynol allanol. E.e. Therapydd Lleferydd ac Iaith (SALT), Therapydd Galwedigaethol (OT).

Dylai lleoliadau nas cynhelir, lle gofynnir am hynny, helpu'r awdurdod lleol i arfer ei swyddogaethau ADY mewn perthynas â darpariaeth dysgu ychwanegol plentyn. Bydd y CDU yn adnabod ymarfer ychwanegol a fydd yn helpu'r plentyn gyda'i ddysgu, ei ddatblygiad a'i ofal yng nghyd-destun y lleoliadau y mae'n eu mynychu.

Os yw'r plentyn yn derbyn addysg neu ofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg rhaid dogfennu hyn yn y CDU a chymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod unrhyw gefnogaeth ar gael hefyd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar Unigolion

Mae ymarfer a chynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ffordd o gydweithio a chyfathrebu'n gadarnhaol gyda'n gilydd. Mae ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ganolog i'r dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau, sy'n egwyddor allweddol yn y Ddeddf.

Mewn lleoliadau addysg, defnyddir ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolyn ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r dysgwr a'r ffordd orau y gallwn ei gefnogi. Mae cynnwys teuluoedd yn ganolog i'r trafodaethau hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob CDU gael ei greu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i blant, eu rhieni/gofalwyr gymryd rhan weithredol yn natblygiad CDU. Cyflawnir hyn trwy gyfarfodydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr

unigolyn. Y partneriaid eraill ymysg asiantaethau yw: lleoliadau addysg neu ysgolion, gwasanaethau cefnogol, gwasanaethau gofal a gwasanaethau iechyd.

Ar gyfer lleoliadau nas cynhelir a ariennir, nid oes unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol i fynychu cyfarfod trafod ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Lle efallai byddech yn dymuno derbyn gwahoddiad i gyfrannu at gyfarfod ynghylch ADY neu CDU, gellid gwneud hyn drwy fynychu'r cyfarfod (yn bersonol neu o bell) neu drwy gyfrannu y tu allan i'r cyfarfod er, er enghraifft, drwy ddarparu rhywfaint o dystiolaeth am anghenion neu gynnydd y plentyn.

Dylai dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn fod wrth wraidd popeth a wnawn gyda phlant ag ADY, mae'r dull hwn yn cyd-fynd â ffocws addysgeg blynyddoedd cynnar yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Mae defnyddio adnoddau ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, megis 'Proffiliau un dudalen' a dathlu cyflawniadau unigol plentyn, waeth beth fo'u cam datblygiad, eisoes yn arfer cyffredin yn y sector, felly efallai y byddwch yn teimlo eich bod eisoes yn hyrwyddo arfer cynhwysol.

Offer a modelau eraill sydd ar gael sy'n cael eu hystyried yn arfer gorau i gefnogi ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yw:

- **Offeryn gwerthfawrogi:** Pum pwynt o ansawdd da sy'n canolbwyntio ar nodweddion yn hytrach nag ar ymddangosiad neu gyflawniadau academaidd. Mae'n ein helpu i ddarganfod beth mae eraill yn ei hoffi ac yn ei edmygu am gymeriad a phersonoliaeth unigolyn. Mae'n nodi sgiliau, doniau, talentau a diddordebau'r plentyn
- **Dyheadau:** Yn cynnwys - Pam fy mod yn cael fy hoffi a'm hedmygu. Beth sy'n bwysig i mi. 'Chi y dyfodol' ' gweithredu yn y dyfodol' . Cynllun gweithredu – camau cyntaf. Canlyniadau. Galluogi oedolion i nodi cyfleoedd i feithrin cryfderau'r plentyn
- **Diwrnod da, diwrnod gwael:** Casglwch wybodaeth am yr hyn sy'n gwneud diwrnod da a beth sy'n gwneud diwrnod gwael. Defnyddiwch y wybodaeth hon i ddeall beth sy'n bwysig iddyn nhw a dysgu sut orau i'w cefnogi. Rhannu ag eraill
- **Cylch perthynas:** Mae'r offeryn hwn yn crynhoi'n weledol pwy sy'n bwysig ym mywyd plentyn. Mae'n helpu i ddiffinio'r perthnasoedd hynny. Gosodwch y bobl y maent yn eu hadnabod gyda'r bobl bwysicaf sydd agosaf at y canol. Gall helpu i gryfhau perthnasoedd presennol ac adeiladu rhai newydd.

<https://www.llyw.cymru/arferion-syn-canolbwyntio-ar-yr-unigolyn-mewn-addysg>

Datblygu perthynas dda gyda rhieni/ofalwyr

Mae cynnwys rhieni/gofalwyr yn addysgu eu plant yn effeithio'n gadarnhaol ar bawb. Mae rhieni/gofalwyr yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u gwerthfawrogi fel arbenigwr ar eu

plentyn ac yn deall eu bod yn chwarae rhan allweddol wrth helpu ymarferwyr i alluogi eu plentyn i gyfranogi a dysgu. Er mwyn cynorthwyo i ddatblygu perthnasoedd â rhieni/gofalwyr yn y lleoliad, dylai staff:

- Meithrin perthynas o ymddiriedaeth gyda rhiant(rhieni)/gofalwr(wyr) y plentyn
- Anogwch y rhiant(rhieni)/gofalwr(gofalwyr) i drafod anghenion eu plentyn
- Anogwch y rhiant(rhieni)/gofalwr(gofalwyr) i gymryd rhan weithredol ym mhob agwedd ar y lleoliad.

Crynodeb o'r cyfrifoldebau wrth gefnogi plant gyda ADY

Mae'r rolau a'r cyfrifoldebau wedi'u diffinio yn y Côd. Isod mae crynodeb byr o'r cyfrifoldebau hynny. Am ragor o fanylion, cyfeiriwch at y Côd.

Ymarferwyr - Bydd pob ymarferwr addysg yn ymwneud â chefnogi dysgwyr ag ADY. Dylai pob ymarferydd addysg fyfyrion ar ei ddysgu a'i ddatblygiad proffesiynol ei hun

Lleoliadau - Dylai lleoliadau nas cynhelir, lle gofynnir am hynny, helpu'r awdurdod lleol i arfer ei swyddogaethau ADY a chynnal gwaith partneriaeth effeithiol gyda rhieni/gofalwyr, y CADY BC /awdurdod lleol a chydweithwyr ychwanegol sy'n ymwneud ag ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Yn ogystal, dylai arweinwyr lleoliadau nas cynhelir nodi gofynion dysgu proffesiynol fel rhan o gylch cynllunio, cynlluniau dysgu proffesiynol a phrosesau hunanarfarnu'r lleoliad.

Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed Mae Safon 4: Bodloni anghenion unigol, yn amlygu'r gofynion ar leoliadau gofal plant cofrestredig o ran diwallu anghenion pob plentyn a phlentyn ag anableddau neu anghenion ychwanegol.

Awdurdodau lleol - Mae awdurdodau lleol yn uniongyrchol gyfrifol am ddiwallu anghenion plant nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir (gan gynnwys y rhai o dan oedran ysgol). Gofynion ar awdurdodau lleol:

- Penderfynu os oes gan blentyn neu berson ifanc ADY
- Paratoi, cynnwys, ffurf, adolygiadau o'r CDU
- Rhoi'r gorau i gynnal CDU
- Darparu cyngor a gwybodaeth
- Osgoi a datrys anghytundebau
- Darparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol.

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ei gwneud yn ofynnol i pob awdurdod lleol ddynodi Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynnyddoedd Cynnar (CADY BC) sydd â chyfrifoldeb i gydlynu cyfrifoldebau'r awdurdod lleol o dan y Ddeddf ADY mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol.

Syniadau da ar gyfer arfer cynhwysol:

- Addasu amgylcheddau, dulliau ac adnoddau i sicrhau mynediad i'r cwricwlwm
- Adeiladu ar arfer da presennol
- Adeiladu partneriaethau cadarnhaol gyda rhieni/gofalwyr
- Dathlu cyflawniadau a galluoedd
- Gwerthuso'r sefyllfa yn aml – myfyrio a thrafod.
- Meithrin agweddau cadarnhaol tuag at gynnwys plant ag anghenion ychwanegol
- Gwneud y mwyaf o gysylltiad y plentyn ag ystod eang o brofiadau a phobl
- Cymerwch bethau'n araf – dechreuwch o'r hyn y gall y plentyn ei wneud
- Gwerthfawrogi a pharchu cyfraniadau pawb.

Cefnogaeth ychwanegol

Mae adnoddau Llywodraeth Cymru yn cynnwys:

- Cwrs e-ddysgu: Cyflwyniad i system newydd ADY yng Nghymru [HWB - Cyflwyniad i ADY](#)
- Cwrs e-ddysgu: Egwyddorion ADY : [Hwb - Anghenion Dysgu Ychwanegol](#)
- Adnoddau ADY: [Rhaglen trawsnewid ADY](#)
- Canllaw rhieni am hawliau o dan system ADY [System Anghenion Dysgu Ychwanegol \(ADY\): eich hawliau](#)

Mae adnoddau NDNA yn cynnwys:

- Cwricwlwm i Gymru: Gwefan Ymarfer Cynhwysol: <http://www.ndna.org.uk/Inclusive>
- Taflen ffeithiau NDNA Cymru – Niwroamrywiaeth yn y blynyddoedd cynnar: <http://www.ndna.org.uk/WelshFactsheets>



National Day Nurseries Association

Taflen ffeithiau

***Meddwl mwy disglair
ar gyfer y blynyddoedd cynnar**

Caiff ein tafleni ffeithiau eu hysgrifennu gan arbenigwyr blynyddoedd cynnar ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar. Mae'r rhan fwyaf o'n tafleni ffeithiau am ddim ar gyfer ein haelodau.

NDNA yw'r elusen genedlaethol a'r gymdeithas aelodaeth sy'n cynrychioli meithrinfeydd plant ar draws y DU. Rydym yn elusen sy'n credu mewn safon a chynhaliadwyedd felly rydym yn gosod busnesau ein haelodau wrth galon ein un ni.

Ni yw llais y sector meithrinfeydd a'i 21,000 o aelodau, ac yn ran o fywydau dros filiwn o blant ifanc a'u teuluoedd. Rydym yn darparu gwybodaeth, hyfforddiant a chyngor i gefnogi meithrinfeydd a'r 250,000 o bobl sy'n gweithio ynddynt i ddarparu dysgu cynnar a gofal plant o safon rhyngwladol.

Gwelwch yr ystod lawn o dafleni ffeithiau NDNA ar www.ndna.org.uk/factsheets

Mae'r wybodaeth ddarparwyd yn y daflen ffeithiau yma at ddefnydd ymarferwyr blynyddoedd cynnar yn unig. Ysgrifenydwyd y daflen gan arbenigwyr blynyddoedd cynnar ond ni ddylai gael ei ddefnyddio fel allddodyn i gyngor proffesiynol. Mae NDNA wedi ymdrechu i sicrhau cywirdeb y wybodaeth gyflwynwyd yn y daflen ffeithiau. Nid yw NDNA yn atebol yn gyfreithiol nac yn gyfrifol am eich dehongliad nac eich defnydd o'r wybodaeth a ddarperir

NDNA Cymru

3 Ty Connaught, Parc Busnes Glan Yr Afon, Ffordd Benarth, Conwy, LL32 8UB
ffôn: 01824 70 78 23 e.bost: wales@ndna.org.uk